**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1252
Ein cyf/Our ref EM/00365/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

Ebrill 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 20 Ionawr, gan y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-06-1252, sy'n gofyn i Lywodraeth Cymru beidio â brechu plant 12 oed ac iau rhag COVID-19. Rwy'n ymddiheuro'n ddiffuant am yr oedi wrth ymateb.

Yn dilyn cymeradwyaeth reoleiddiol i ddefnyddio brechlyn COVID-19 Pfizer ar gyfer plant 5 i 11 oed, gan yr Awdurdod Rheoleiddio Meddyginiaethau a Gofal Iechyd (MHRA), cynghorodd y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) ar 22 Rhagfyr 2021 y dylid cynnig y brechlyn i blant 5 i 11 oed sydd â chyflyrau iechyd sy'n golygu bod y feirws yn peri risg iddynt, neu sy'n gyswllt ar aelwyd i rywun sydd ag imiwnedd gwan. Ar 16 Chwefror 2022, estynnodd y JCVI ei argymhelliad i gynnig y brechlyn i bob plentyn 5 i 11 oed. Wrth roi'r cyngor hwn, dywedodd y JCVI mai rhaglen unigol i ymateb i'r pandemig oedd hon, ac y byddai'n edrych ar p'un a fydd cynnig brechiadau i'r grŵp oedran hwn a grwpiau eraill o blant, yn y tymor hir, yn parhau i gael ei gynghori.

Derbyniais y cyngor hwn ynghyd â Gweinidogion Iechyd eraill y DU, ac yng Nghymru, dechreuwyd cyflwyno'r cynnig i blant "mewn risg" ym mis Ionawr 2022, a'r cynnig "cyffredinol" ym mis Mawrth 2022. Gallwch weld y prif ystyriaethau mewn perthynas â'r cyngor hwn drwy'r ddolen ganlynol:

*JCVI statement on vaccination of children aged 5 to 11 years old - GOV.UK (www.gov.uk)*

Dylid nodi nad yw'r brechlyn yn orfodol, a gall teuluoedd ddewis cael y brechlyn neu beidio. Mae Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol wedi ysgrifennu at bob plentyn cymwys a'u teuluoedd gyda dolenni at wybodaeth ddibynadwy a ffeithiol ar y brechlyn, er mwyn iddynt wneud dewis gwybodus am y cynnig. Mae hwn wedi cael ei rannu drwy sianeli cyfathrebu

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ysgolion. Mae fideos a gwybodaeth wych wedi’u targedu at grwpiau oedran penodol hefyd ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Byddem yn annog teuluoedd i gael sgyrsiau am y cynnig a threulio amser yn ystyried yr wybodaeth cyn penderfynu p’un a ydynt am dderbyn y cynnig i gael y brechlyn ai peidio.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services